**STD 01-01(2)**

**<u>Blaenraglen Waith Ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad</u>**

**Mater:**

Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar y Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer y 12 mis nesaf.

**Cefndir:**

Yng nghyfarfod 6 Rhagfyr 2000, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu blaenraglen waith ar gyfer y 12 mis nesaf.

Mae'r rhaglen a'r amserlen drafft amgaeëdig yn adlewyrchu barn y Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

**Gweithredu:**

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y rhaglen ddrafft yn Atodiad 1, ac i gytuno iddi gael ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad***

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Buddiannau Anuniongyrchol:**<br><br>Y gofynion ym mhenderfyniad 19 Mai 1999 y Cynulliad a'r Canllawiau cysylltiedig | A oes eisiau cadw'r darpariaethau hyn? Os oes, sut dylid eu crisialu a'u cymhwyso. | Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i adolygu'r darpariaethau presennol ar ôl cynnal ei ymgynghoriad cyffredinol ar fuddiannau aelodau. | Ionawr - Mawrth<br><br>*Gweithredu hyd yma:*<br><br>Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater a chwmpas yr adolygiad ar 31/1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwy sy'n dod o dan **awdurdod** y Pwyllgor a pherthynas y Pwyllgor ag eraill | Mae angen crisialu cwmpas gwaith y Pwyllgor a sicrhau bod pwyllgorau/cyrff eraill yn ymwybodol o effaith diwygio canllawiau ar y Pwyllgor | Enghraifft o hyn yw'r Canllawiau ar nwyddau swyddfa. Mae'r mater wedi'i gyfeirio at Bwyllgor y Ty | Ionawr - Mawrth<br>*Gweithredu hyd yma:*<br>Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ystyried y mater gydag eraill a bydd yn cyflwyno'i chasgliadau i'r Pwyllgor ar 7/3 |
| **Y Broses Gwyno** | A oes lle i ddisgresiwn ar ddechrau'r broses? Beth ellid ei wneud i atal achosion 'dibwys' nad ydynt yn teilyngu dod yn rhan o'r broses? | Rhoddodd y Pwyllgor addewid yn ystod y trafod ar ei Adroddiad Blynyddol y byddai'n edrych i'r mater. | Mawrth – Mehefin<br>*Gweithredu hyd yma*<br>Heb ddechrau |
| **Rheol Sefydlog 16** | Trefniadau ar gyfer Cadeirydd dros dro. Ar lefel ehangach, a yw'n bodloni gofynion y Pwyllgor; a oes pethau y carai eu newid? | Mae'n bosib y bydd gofyn gwneud newidiadau o ganlyniad i'r cynigion i newid y broses gwyno ac ar ôl ystyried maes gwaith y Pwyllgor. | Ebrill<br>*Gweithredu hyd yma*<br>Heb ddechrau |
| **Datgan buddiannau** | Mae'r canllawiau wedi'u crisialu ond mae gofyn gwneud mwy i sicrhau dealltwriaeth. | Mae'r Pwyllgor wedi dweud y bydd yn cadw golwg ar y canllawiau ac arferion Aelodau. Da o beth fyddai i'r Pwyllgor edrych ar y mater cyn diwedd y tymor hwn. Erbyn hynny, bydd y canllawiau diwygiedig wedi bod ar waith am gyfnod rhesymol. | Ebrill<br>*Gweithredu hyd yma*<br>Heb ddechrau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Codi ymwybyddiaeth** | Mae llawer o ganllawiau wedi'u paratoi ar gyfer aelodau ond mae diffyg ymwybyddiaeth yn parhau'n broblem. | Roedd hwn hefyd yn thema yn y ddadl ar yr Adroddiad Blynyddol – cysylltiad agos rhyngddo a'r cwestiwn ar ddatgan buddiannau | Ebrill – Gorffennaf<br><br>*Gweithredu hyd yma*<br><br>Heb ddechrau |
| **Gweithio gyda chyrff eraill** | Dod i ddeall yr arferion gorau a'r trefniadau gweithio mewn gweinyddiaethau eraill | | Ebrill - Tachwedd<br><br>*Gweithredu hyd yma*<br><br>Heb ddechrau |
| Protocol gyda'r **Heddluoedd** | Trefniadau ar gyfer trosglwyddo achosion difrifol i'r heddlu | Mae'r Pwyllgor wedi meithrin perthynas gyda heddlu De Cymru a bydd yn gweithio i feithrin cysylltiadau tebyg â heddluoedd eraill yng Nghymru. | Ionawr - Tachwedd<br><br>*Gweithredu hyd yma*<br><br>Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi dechrau sefydlu cysylltiadau |
| **Seiri Rhyddion** | Cafwyd peth trafod ar y mater gyda'r Llywydd. Mae'n debygol y caiff ei roi ger bron y Pwyllgor i'w adolygu. | | Mehefin - Tachwedd<br><br>*Gweithredu hyd yma*<br><br>Heb ddechrau |
| **Rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol** | A yw'n gweithio? A yw aelodau'n hapus â'r berthynas?<br>A ddylid argymell sefydlu swydd comisiynydd annibynnol fel ag y mae Cynulliadau/ Seneddau eraill wedi'i wneud? | Codwyd hyn gyda'r Llywydd eisoes ac ar sawl achlysur yn y Pwyllgor. Bydd yr ymgynghorydd wedi bod yn ei swydd am flwyddyn ar 14 Mawrth. Byddai'n ddoeth adolygu'r sefyllfa bryd hynny. | Ebrill – Tachwedd<br><br>*Gweithredu hyd yma*<br><br>Heb ddechrau |